Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru
West Wales Regional Partnership Board

# LLYTHYR NEWYDDION BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU

Croeso cynnes iawn i pedwerydd rifyn Llythyr Newyddion Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.

Through our newsletters we want to introduce members of the West Wales Regional Partnership Board (WWRPB) Team, what their role is and what they do across the health and social care sector in West Wales.

Yn y llythyr newyddion hwn rydym yn canolbwyntio ar Michael a Nikeela, sy'n arwain o ran cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.

## Ein rôl mewn cyfathrebu ac ymgysylltu



Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod yr holl bartneriaid, gan gynnwys gwasanaethau iechyd, cynghorau lleol a rhai sefydliadau eraill, yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i wella canlyniadau iechyd i bobl yn eu rhanbarth. Rhaid iddynt sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl yn eu rhanbarth.

Bob pum mlynedd mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn datblygu Asesiad Poblogaeth ar gyfer Gorllewin Cymru (https://wwrpb.org.uk/wp-content/uploads/Population-Needs-Assessment-FINAL-v3-Welsh-Accessible-FINAL.pdf). Tac yna Cynllun Ardal rhanbarthol sy'n seiliedig ar y canfyddiadau hyn (Cynllun Ardal – West Wales Regional Partnership Board (wwrpb.org.uk)). Er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu datblygu mewn ymateb i'r anghenion a nodwyd, mae'n hanfodol ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad bywyd ac adlewyrchu eu llais. Mae ein dull parhaus o ymgysylltu yn amrywio o gyfraniadau gan y Dream Team hirsefydlog ac anffurfiol, sy'n canolbwyntio ar anableddau dysgu a niwroamrywiaeth, i'r grŵp diweddaraf sef y Bwrdd Ymgysylltu â Dinasyddion a'r Trydydd Sector, ymhlith eraill.



Er mwyn datblygu prosesau cadarn ar gyfer monitro, gwella ac adrodd ar berfformiad, mae Tîm Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru yn hwyluso cyfarfodydd a digwyddiadau sy'n dod ag ystod o bartneriaid ynghyd i gydweithio ar ddatblygu gwasanaethau a rhannu'r hyn a ddysgwyd.  Mae rhai digwyddiadau, megis y Gynhadledd Flynyddol ym mis Mawrth, (Conference and Awards 2024 – West Wales Regional Partnership Board (wwrpb.org.uk)) yn ymdrin ag ystod o bynciau a grwpiau poblogaeth, tra bod eraill drwy gydol y flwyddyn yn cael eu datblygu o amgylch blaenoriaethau penodol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Ers mis Ebrill mae'r tîm wedi lansio'r Strategaeth Eiriolaeth ranbarthol, Cynhadledd Dementia - Diwedd Oes ac wedi cynnal gweithdai ar gyfer perfformiad ac adroddiadau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a gweithdai i ddatblygu'r ymagwedd ranbarthol tuag at NYTH, sydd i gyd wedi cynnwys cyfraniad a chefnogaeth gan arweinwyr a gwasanaethau prosiectau ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

Bob blwyddyn, rydym yn gweithio'n agos gyda'n tîm a'n partneriaid i greu Adroddiad Blynyddol sy'n arddangos effaith a chyflawniadau pawb sy'n cyfrannu at y gwaith a oruchwylir gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

## Cwrdd â Michael a Nikeela



Yn 2014, daeth Michael yn Swyddog Cyllid a Chymorth Busnes ar gyfer Cydweithredfa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth a Gorllewin Cymru, a elwir bellach yn Fwrdd Partneriaeth Gorllewin Cymru. Ehangwyd ei rôl yn ddiweddarach i gynnwys cyfrifoldebau o ran cyfathrebu.

Yn wreiddiol o dde Llundain, roedd yn dyheu am ddod yn bensaer ond newidiodd ei ffocws i gyfrifyddiaeth, gan ddechrau fel ceidwad cyfrifon i Gwmni Adeiladu yn ne-orllewin Llundain ac yna, ar ôl ychydig o rolau ariannol yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, symudodd ymlaen i fod yn Gyfrifydd Rheoli yn Lazard, Llundain. Ar ôl i'w swydd gael ei dileu, gweithiodd Michael mewn tîm

Ymyriadau yn y Sefydliad i Droseddwyr Ifanc, Isis, gan drefnu rhaglenni ymddygiad troseddwyr achrededig ar gyfer adsefydlu troseddwyr ifanc. Yn ddiweddarach yng Nghymru, symudodd i rolau gweinyddol a chydymffurfiaeth gan drefnu a chyflwyno cyrsiau hyfforddi achrededig ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu a phob math o anableddau. Mae Michael yn ddiolchgar am y profiad amhrisiadwy a gafodd o weithio ochr yn ochr â chydweithwyr talentog ac ymroddedig dros y blynyddoedd, ac mae'n dweud bod eu hymrwymiad a'u harbenigedd wedi siapio ei dwf proffesiynol.

Mae'n frwd dros ffotograffiaeth a fideograffeg, ac mae'n cadw cofnod o'r eiliadau allweddol mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau, gan gynnwys adegau mewn chwaraeon gyda sêr fel LeBron James ac Usain Bolt yn 2009. Mae Michael yn credu bod pob delwedd neu glip fideo yn cyfrannu at stori ehangach, gan greu profiad grymus y gallwch ymgolli ynddo.



Ymunodd Nikeela â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru ym mis Mai 2023 fel Rheolwr Prosiect. Yn y rôl hon, mae hi'n darparu cymorth o ran rheoli prosiect i'r tîm mewnol ac i bartneriaid allanol. Rhan allweddol o'i swydd yw canolbwyntio ar ohebiaeth allanol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru, gan sicrhau bod ei waith a'i effaith yn cael eu cyfleu i gynulleidfa ehangach.

Rhan o rôl Nikeela pan ymunodd â'r tîm am y tro cyntaf oedd recriwtio unigolion â phrofiad byw i brif gyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru a'i ffrydiau gwaith. Mae'r rôl fel cynrychiolydd profiad byw fel arfer yn para dwy flynedd ac mae'n cynnwys bod mewn amgylchedd corfforaethol. Gallai hyn fod yn heriol i'r rhai nad ydynt wedi arfer â mynychu cyfarfodydd ar raddfa fawr.

Er mwyn gwneud y rôl yn fwy hygyrch a chynhwysol, rydym wedi creu platfform newydd o'r enw Bwrdd Ymgysylltu â Dinasyddion a'r Trydydd Sector. Mae'r bwrdd hwn yn croesawu aelodau newydd drwy gydol y flwyddyn ac yn gwasanaethu fel man cychwyn i unigolion sydd â diddordeb mewn cyfrannu at Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.

Byddwn yn nodi ymgeiswyr addas o'r Bwrdd Ymgysylltu i gymryd rhan ym mhrif gyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru. Mae'r dull hwn yn sicrhau y gall pobl ymgysylltu ar lefel sy'n gweddu orau i'w hargaeledd a'u diddordebau.

Byddwn yn cymhwyso'r un egwyddor i'n ffrydiau gwaith, megis dementia a gofalwyr, gan gynnig nifer o bwyntiau mynediad ar gyfer cymryd rhan.

Os byddwch yn penderfynu ymgymryd â rôl ar ffrwd waith neu yng nghyfarfod y bwrdd nid oes rhaid i chi hefyd fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y bwrdd ymgysylltu; eich penderfyniad chi'n llwyr yw faint rydych chi am fod yn rhan o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.

## Cynrychiolydd Dinasyddion a'r Trydydd Sector



Rydym bellach wedi cynnal tri chyfarfod o'r bwrdd cynrychiolwyr dinasyddion a'r trydydd sector. Roedd yn wych gweld cymaint o bobl yn rhannu eu profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol.

Hyd yn hyn mae'r cyfarfodydd wedi canolbwyntio ar:

- Rolau'r mynychwyr ym Mwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru a phwysigrwydd ymgysylltu'n barhaus â phrosiectau a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol rhanbarthol.
- Ymgynghoriad ynghylch pa mor ymwybodol o niwroamrywiaeth yw gorllewin Cymru. (Adroddiad ar gael)
- Cynllunio glasbrint a chyfarwyddyd ar gyfer Canolfannau Hwb Iechyd a Gofal Cymdeithasol gan Dîm Cyfalaf Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru ar https://carerssupportwestwales.org/

Os hoffech ddod i'r cyfarfod nesaf ar 27 Awst 2024 am 1pm yn Arberth, anfonwch neges atom at wwrpb@sirgar.gov.uk.

Byddwn yn edrych ar ganlyniadau'r Arolwg Strategaeth Gofalwyr ac yn adolygu Gwobrau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gorllewin Cymru.





## Ydych chi'n rhan o Grŵp Gofalwyr di-dâl?

Rydym wedi dadansoddi'r ymatebion i'r arolwg gofalwyr a fydd yn llywio Strategaeth Gofalwyr 2025-2030. Dyma lle rydym yn blaenoriaethu gwaith yn y dyfodol ar gyfer gofalwyr di-dâl ledled gorllewin Cymru.

Rydym am glywed rhagor gan ofalwyr o bob oed yn y gymuned a sicrhau bod ein canfyddiadau'n adlewyrchu anghenion gwahanol rannau o'r rhanbarth. Hoffem rannu canlyniadau'r arolwg gyda'ch grŵp, naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein, i gael eich adborth.

Rydym yn hyblyg o ran yr amser sydd ar gael. Os mai dim ond deng munud sydd gennych, gallwn ganolbwyntio ar gwestiwn penodol yn yr arolwg neu ganfyddiad sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eich grŵp. Fel arall, rydym yn hapus i dwrio'n ddyfnach i'r canlyniadau.

Credwn ei bod yn hanfodol cynnwys ystod eang o safbwyntiau wrth lunio Strategaeth Gofalwyr 2025-2030. Gan y bydd y strategaeth hon yn pennu blaenoriaethau ariannol, mae'n hanfodol bod lleisiau gofalwyr yn ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau.

Cysylltwch â ni drwy anfon neges e-bost at wwrpb@sirgar.gov.uk os oes gennych grŵp neu fforwm y gallwn ymweld ag ef erbyn 6 Medi.

## Gwyliwch ein Fideos Astudiaethau Achos!

Mae astudiaethau achos yn enghreifftiau o fywyd go iawn sy'n tynnu sylw at waith tîm a chanlyniadau.

Rydym wedi bod yn ffilmio'r maes iechyd a gofal cymdeithasol yng ngorllewin Cymru, gan greu fideos astudiaethau achos sy'n dangos effaith mentrau iechyd a gofal cymdeithasol ledled y rhanbarth.

O ystyried pwyslais Llywodraeth Cymru ar arddangos effaith newid, mae'r fideos hyn mor bwysig. Maent yn cofnodi'r newidiadau cadarnhaol yn sgil y prosiectau hyn.

**Gwyliwch nhw drwy ddilyn y dolenni isod:**




Young Carers Milford Haven School



[Claire - Catalysts for Care](#)




[Elma’s Story - Catalysts for Care](#)

## Cynhadledd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru a Gwobrau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gorllewin Cymru 2025



Cafodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru a Gwobrau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gorllewin Cymru ymateb mor dda eleni fel ein bod eisoes wedi pennu dyddiad ar gyfer y flwyddyn nesaf. Rydym yn falch o gyhoeddi y bydd y gynhadledd nesaf yn cael ei chynnal ddydd Mawrth 11 Mawrth 2025 ym Mharc y Scarlets. Mae'r digwyddiad hwn yn gyfle i ddod â staff o Gyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Hywel Dda at ei gilydd.

Y llynedd gwnaethom gynnal wyth gweithdy oedd yn arddangos ac yn trafod prosiectau rhanbarthol, gan roi cyfle gwych i ddod â chyfarwyddwyr, arweinwyr gwasanaethau a staff gweithredol ynghyd. Yn y prynhawn, cynhaliwyd Gwobrau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gorllewin Cymru, a oedd yn cynnwys

chwe chategori oedd yn agored i bob unigolyn sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng ngorllewin Cymru.

Bydd enwebiadau ar gyfer Gwobr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gorllewin Cymru yn agor buan.

Byddwch yn barod ar gyfer hyd yn oed rhagor o gategorïau gwobrau y flwyddyn nesaf!

**Edrychwch ar yr hyn ddigwyddodd yng Nghynhadledd a Gwobrau 2024:**

WWRPB Conference & Awards 2024 – West Wales Regional Partnership Board

**Os hoffech gyfrannu eitem am brosiect neu weithdy at Gynhadledd 2025, cysylltwch â ni yn wwrpb@sirgar.gov.uk.**

## Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru 2023-2024




Mae Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru 2023-2024 wedi'i gwblhau, ei gyfieithu a'i droi'n fersiwn hawdd ei darllen. Bellach mae ar gael ar ein gwefan. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn dangos y datblygiadau a wnaed gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf.

Saesneg: WWRPB Annual Report 2023-24 – West Wales Regional Partnership Board

Cymraeg: Adroddiad Blynyddol 2023-24 – West Wales Regional Partnership Board (wwrpb.org.uk)

Saesneg hawdd ei darllen: WWRPB Annual Report 2023-24 – Accessible Version – West Wales Regional Partnership Board

Cymraeg hawdd ei darllen: [WWRPB Annual Report 2023-24 – Accessible Version – West Wales Regional Partnership Board]

## Hysbyseb Recriwtio Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CWMPAS)

A ydych chi'n oedolyn sydd â phrofiad byw o wasanaethau diogelu, yn byw yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro neu Bowys a all gynnig persbectif gwybodus ar ansawdd a darpariaeth gwasanaethau diogelu yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru? Mae Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CWMPAS) am recriwtio cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth i fod yn aelod o'i fwrdd gweithredol rhanbarthol diogelu oedolion. Ymarfer peilot dros gyfnod penodol o flwyddyn fydd hwn. Bydd eich rôl yn sicrhau bod persbectif a llais oedolion mewn perygl yn cael eu cynrychioli a'u hystyried ym musnes y bwrdd a bod eich profiad byw yn llywio amcanion a chynlluniau strategol.

- Bydd eich rôl a'ch cyfrifoldebau yn cynnwys y canlynol:
- Bod yn bresennol mewn tua phedwar cyfarfod bwrdd diogelu rhanbarthol y flwyddyn (gellir trefnu presenoldeb rhithwir).
- Bod yn bresennol mewn cyfarfodydd rhanbarthol perthnasol eraill fel y bo'n briodol ac fel y cytunwyd rhyngoch chi a'r cadeirydd.
- Paratoi'n ddigonol ar gyfer cyfarfodydd y bwrdd diogelu rhanbarthol trwy ddarllen papurau ac agenda'r bwrdd cyn y cyfarfod.
- Sicrhau cyfrinachedd papurau agenda, y trafodaethau a'r penderfyniadau a wneir.
- Darparu persbectif defnyddiwr gwasanaeth i fusnes y bwrdd diogelu rhanbarthol.
- Cyfrannu at ddatblygu cynlluniau a chynigion, gan ddarparu mewnbwnadeiladol o safbwynt defnyddiwr gwasanaeth.
- Bod yn ddolen gyswllt rhwng y bwrdd diogelu rhanbarthol a defnyddwyr gwasanaeth eraill lle bo'n briodol.

Byddwch yn adrodd i gadeirydd y bwrdd diogelu rhanbarthol ac yn cael cymorth uniongyrchol gan y rheolwr diogelu rhanbarthol strategol ar gyfer plant ac oedolion mewn perygl. Gellir hawlio ad-daliad llawn ar gyfer treuliau rhesymol.I drefnu trafodaeth anffurfiol gyda'r rheolwr diogelu rhanbarthol neu i ofyn am becyn gwybodaeth, anfonwch e-bost i CWMPAS@Pembrokeshire.gov.uk neu ffoniwch 01437775200.

Gwahoddir ceisiadau ar ffurf llythyr eglurhaol at gadeiryddion Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru, Michael Gray a Jake Morgan. Sicrhewch fod hyn yn cynnwys yr hyn a wnaeth eich cymell i wneud cais, eich profiad byw fel defnyddiwr gwasanaethau diogelu, a sut y teimlwch y gallwch gyfrannu at y bwrdd diogelu rhanbarthol a'i ddatblygiad ac ymateb i oedolion mewn perygl yng nghanolbarth a gorllewin Cymru. Bydd y rôl yn gofyn am wiriad sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Gwener, 13 Medi 2024.

Anfonwch lythyr eglurhaol at sylw Michael Gray a Jake Morgan i CWMPAS@Pembrokeshire.gov.uk

Sylwch y cynhelir cyfweliadau ddydd Gwener, 4 Hydref 2024.

# Digwyddiadau i ddod

## Digwyddiad Byw'n Iach yn Sir Gâr

Bydd gwybodaeth, gweithgareddau a sesiynau blasu ar gael a chyfleoedd i ddysgu ac ymgysylltu â phobl am yr hyn y gallwch ei wneud i fyw'n dda.

Isod ceir dyddiadau o'r digwyddiadau nesaf:


| | | |
|---|---|---|
| Neuadd Y Tymbl | 18/09/2024 | 10 am - 2pm |
| Neuadd Goffa Hendy Gwyn | 23/10/2024 | 10am - 2pm |
| Canolfan Tywysoges Gwenllian, Cydweli | 29/11/2024 | 10am - 2pm |

## Cynrychiolydd Dinasyddion a'r Trydydd Sector




Os hoffech ddod i'r cyfarfod nesaf ar 27 Awst 2024 am 1pm yn Arberth, anfonwch neges atom at wwrpb@sirgar.gov.uk.

## Fy iechyd, fy newis



# Fy iechyd, fy newis
# My health, my choice

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

### Arddangosfa iechyd a lles Gofal Sylfaenol a Chymunedol

Dewch i glywed mwy am yr hyn sydd ar gael yn eich ardal a rhannwch eich syniadau ar gyfer y dyfodol.

Galwch heibio unrhyw bryd yn ystod yr amseroedd isod a rhannwch eich barn dros baned.

### Primary Care and Community health and well-being showcase

Find out more about what is available in your area and share with us your ideas for the future.

Drop in anytime during the times shown below and share your views with us over a cuppa.

| Amser / Time | Dyddiad / Date | Lleoliad / Location |
|---|---|---|
| 2pm - 6:30pm | 5 Medi 2024<br>5 September 2024 | Neuadd Bentref Bancyfelin, **Bancyfelin**, SA33 5ND<br>Bancyfelin Village Hall, **Bancyfelin**, SA33 5ND |
| 2pm - 6:30pm | 11 Medi 2024<br>11 September 2024 | Neuadd Regency, **Saundersfoot**, SA69 9NG<br>Regency Hall, **Saundersfoot**, SA69 9NG |
| 2pm - 7pm | 12 Medi 2024<br>12 September 2024 | Neuadd Goffa Pontyberem, **Pontyberem**, SA15 5HU<br>Pontyberem Memorial Hall, **Pontyberem**, SA15 5HU |
| 2pm - 7pm | 19 Medi 2024<br>19 September 2024 | Neuadd Tysul, **Llandysul**, SA44 4QL<br>Tysul Hall, **Llandysul**, SA44 4QL |
| 2pm - 7pm | 24 Medi 2024<br>24 September 2024 | Yr Hwb, Canolfan Gymunedol Penparcau, **Aberystwyth**, SY23 1RU<br>The Hub, Penparcau Community Centre, **Aberystwyth**, SY23 1RU |
| 10am - 5pm | 25 Medi 2024<br>25 September 2024 | HaverHub, Yr Hen Swyddfa Bost, Stryd y Cei, **Hwlffordd**, SA61 1BG<br>HaverHub, The Old Post Office, Quay Street, **Haverfordwest**, SA61 1BG |
| 2pm - 7pm | 26 Medi 2024<br>26 September 2024 | Ffwrnes Fach, Hwb Celfyddydau, Iechyd a Llesiant, **Llanelli**, SA15 3YE<br>Ffwrnes Fach, Arts, Health & Wellbeing Hub, **Llanelli**, SA15 3YE |

**Neu ymunwch â ni ar-lein!**

Rydym hefyd yn cynnal digwyddiadau ar-lein:

- 11 am, dydd Mawrth 10 Medi
- 6 pm, dydd Llun 16 Medi

I gofrestru, ewch i'n gwefan.

Am fwy o wybodaeth ewch i www.dweudeichdweud.biphdd.cymru.nhs.uk neu ffoniwch 0300 303 8322

**Or join us online!**

We are also holding online events:

- 11am, Tuesday 10 September
- 6pm, Monday 16 September

To register, please visit our website.

For more information go to www.haveyoursay.hduhb.wales.nhs.uk or call 0300 303 8322

# Ydych chi'n ein dilyn ni?

Rydym wedi dechrau tudalen LinkedIn yn ddiweddar. Cofiwch ein dilyn ni a sôn amdanom yn eich postiadau pan fyddwch yn cymryd rhan yn y gwaith a wnawn. Byddem wrth ein bodd yn clywed am hynny!

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol **Gorllewin Cymru**

**West Wales** Regional Partnership Board

Facebook @PGGCWWCP

Instagram @PGGCWWCP

X @PGGCWWCP

LinkedIn @ West Wales Regional Partnership Board

https://www.wwrpb.org.uk/

## Cysylltu â ni!

Os oes gennych gynnwys yr hoffech ei rannu *ar draws ein sianeli yn y cyfryngau,* neu unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhifynnau yn y dyfodol, rhowch wybod i ni ar wwrpb@sirgar.gov.uk Y tîm yn edrych ymlaen at glywed gennych chi a datblygu'r llythyr newyddion yn adnodd defnyddiol a llawn gwybodaeth. Bydd eich adborth yn ein helpu i gyflawni hynny, ac yn sicrhau bod y llythyr newyddion yn cael ei ddosbarthu ac yn cael ei ddarllen!

#WWRPB
@PGGCWWCP

Ewch i'n gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf: **www.wwrpb.org.uk**

Ymholiadau pellach: **wwrpb@carmarthenshire.gov.uk**